Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
DYDDIAD:	27 Medi 2022
LLEOLIAD:	O bell drwy gyfrwng fideo-gynadledda
TEITL:	Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Ansawdd Allanol o Archwilio Mewnol
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Cyflwyno i'r Pwyllgor yr Asesiad Ansawdd Allanol o Archwilio Mewnol a wnaed gan Gyngor Sir Ynys Môn

Cefndir

Daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus i rym ar 1 Ebrill 2013 ac roeddent yn cyflwyno gofyniad i gynnal asesiad allanol o bob gwasanaeth archwilio mewnol. Rhaid cynnal y rhain o leiaf unwaith bob pum mlynedd a hynny gan adolygydd cymwys, annibynnol o du allan i'r sefydliad.

Gwnaeth tîm adolygu o Gyngor Sir Ynys Môn, a oedd yn cynnwys y Pennaeth Archwilio a Risg a'r Prif Archwilydd, gynnal gwerthusiad o hunan-asesiad Cyngor Sir Ceredigion a hynny rhwng Mai a Gorffennaf 2022. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r asesiad. (**Atodiad 1**)

Argymhelliad: Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

1. Nodi cynnwys yr Asesiad Ansawdd Allanol o Archwilio Mewnol

Rheswm dros yr Argymhelliad: Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am ganlyniad yr Asesiad Ansawdd Allanol o Archwilio Mewnol

Atodiadau:	**Atodiad 1:** Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Ansawdd Allanol o Archwilio Mewnol
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro
Swyddog Adrodd:	Marion Pryor (Pennaeth Archwilio a Risg - Cyngor Sir Ynys Môn) Alex Jenkins (Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol)
Dyddiad:	31/8/2022

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Ansawdd Allanol o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA, Pennaeth Archwilio a Risg

Awst 2022

Nanette Williams BA (Hons) MSc CMIIA, Prif Archwilydd

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNNWYS

CYFLWYNIAD 1
CANLYNIADAU'R ASESIAD 2
CRYNODEB O'R ASESIAD 4
ATODIAD 1: DIFFINIAD O'R MEINI PRAWF ASESU 8
ATODIAD 2: CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER GWELLA 9
ATODIAD 3: RHESTR DDOSBARTHU 12

CYFLWYNIAD

1. Daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) i rym ar 1 Ebrill 2013[1], ac roeddent yn cyflwyno gofyniad am asesiad allanol o bob gwasanaeth archwilio mewnol, y mae'n rhaid ei gynnal o leiaf un waith bob pum mlynedd gan adolygwr annibynnol, cymwys o du allan i'r sefydliad.

2. Mae'r ddau ddull posib o gynnal asesiad allanol a amlinellir yn y safonau yn cynnwys naill ai asesiad allanol cyflawn, neu hunanasesiad mewnol sy'n cael ei ddilysu gan adolygydd allanol.

3. Penderfynodd Aelodau Grŵp Prif Archwilwyr Cymru fabwysiadu'r dull hunanasesu, gydag aelod arall o'r Grŵp yn cynnal dilysiad annibynnol.

4. Ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, cynhaliodd tîm adolygu o Gyngor Sir Ynys Môn, a oedd yn cynnwys y Pennaeth Archwilio a Risg a'r Prif Archwilydd, adolygiad o'r hunanasesiad rhwng mis Mai a Gorffennaf 2022. Yn unol â'r PSIAS, roedd y ddau adolygydd yn meddu ar gymwysterau priodol ac yn archwilwyr mewnol profiadol.

5. Roedd yr asesiad dilysu yn cynnwys adolygiad pen bwrdd o'r hunanasesiad a thystiolaeth ategol, yn ogystal â thrafodaethau gyda'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro, er mwyn meithrin dealltwriaeth a chasglu safbwyntiau am sut roedd y Tîm Archwilio Mewnol yn gweithredu a chydymffurfiaeth â'r Safonau.

6. Mae'n rhaid datgelu unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â'r Safonau, a'r effaith, i uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

[1] Adolygwyd ddiwethaf yn 2017

CANLYNIADAU'R ASESIAD

7. Mae'r PSIAS yn cynnwys elfennau gorfodol Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol (IPPF) Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol (IIA), sef: Diffiniad o Archwilio Mewnol, y Cod Moeseg a'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer yr Arfer Proffesiynol o Archwilio Mewnol.

8. Ar draws elfennau gorfodol y PSIAS, mae 56 o feysydd neu safonau arfer orau, sy'n cynnwys 304 llinell arfer orau. Mae'r tabl ar dudalen 4 isod yn rhoi crynodeb o ganlyniadau'r asesiad dilysu allanol gan ddefnyddio cod lliwiau.

9. Mae diffiniadau o'r meini prawf asesu a'r graddfeydd a ddefnyddiwyd i'w gweld yn Atodiad 1.

Daeth yr asesiad dilysu a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2022 i'r casgliad fod gwasanaeth archwilio mewnol Cyngor Sir Ceredigion yn cydymffurfio â 49 o Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ar hyn o bryd ac yn cydymffurfio'n rhannol mewn saith maes. Ni nodwyd unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth.

Felly, mae asesiad cyffredinol o 'Cydymffurfio'n Gyffredinol' gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gymwys.

[2]

10. Fel y gwelir uchod, mae canlyniadau'r asesiad allanol yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r Cyngor yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' gyda'r mwyafrif o'r safonau. Mae'r prif feysydd ble mae'r Cyngor wedi dangos 'cydymffurfiaeth rannol' gyda'r PSIAS fel a ganlyn;

    - Nid yw'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol eto yn meddu ar gymhwyster proffesiynol ym maes Archwilio Mewnol.
    - Oherwydd y pandemig a'i effaith parhaus, nid yw'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol wedi cwblhau'r asesiad risg arferol i benderfynu ar y cynllun gwaith blynyddol ar gyfer archwilio mewnol ar gyfer 2021/22. Ar gyfer 2022/23, tra bod y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol wedi perfformio ac ystyried yr asesiad risg arferol wrth ddatblygu'r cynllun archwilio blynyddol, mae'r rhaglen waith wedi bod yn hyblyg, ac wedi canolbwyntio ar feysydd gwaith a nodwyd yn flaenorol ynghyd â rhai risgiau allweddol o'r gofrestr risg gorfforaethol a cheisiadau penodol am sicrwydd.

[2] 'Cydymffurfio'n Gyffredinol' yw'r radd gyffredinol uchaf sydd ar gael i'r asesydd

- Ers dechrau'r pandemig, nid yw'r tîm Archwilio Mewnol wedi dilyn i fyny camau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda rheolwyr, a nodwyd yn ystod gwaith archwilio, er mwyn sicrhau fod rheolwyr wedi eu rhoi ar waith yn effeithiol.
- Ar hyn o bryd, mae'r Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol yn datblygu a gwella map sicrwydd y Cyngor, sydd yn nodi ffynonellau sicrwydd ar draws y Cyngor. Pan fydd y map sicrwydd diwygiedig wedi'i gwblhau bydd yn darparu dealltwriaeth ddefnyddiol a chyfeiriad i'r broses gynllunio flynyddol ar gyfer archwilio mewnol.
- Proses anffurfiol yw'r broses o ddarparu sgôp ar gyfer aseiniadau archwilio mewnol i wasanaethau sy'n destun adolygiad archwilio, ac efallai y byddai dull mwy strwythuredig yn fanteisiol. Yn ogystal, dylai archwilwyr ystyried ceisio cytuno ymlaen llaw ar sgôp y gwaith gyda rheolwyr, er mwyn cynorthwyo i ennyn cefnogaeth a pherchnogaeth o'r archwiliad ac unrhyw argymhellion sy'n deillio ohono a'r camau gwella a nodwyd.
- Mae angen gwneud nifer fechan o newidiadau i Adroddiad Blynyddol y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol, y Siarter Archwilio Mewnol a'r Llawlyfr Archwilio i sicrhau fod holl elfennau'r PSIAS yn cael eu bodloni yn llawn.

11. Mae cynllun gweithredu manwl ar gyfer wyth maes i'w gwella a nodwyd yn ystod yr asesiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, sy'n cynnwys awgrym o amserlenni gweithredu a chyfrifoldebau am y camau gweithredu.

12. Rydym wedi rhoi copi o'r asesiad manwl i'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol mewn dogfen ar wahân.

CRYNODEB O'R ASESIAD

Cyfeirnod	Safon Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus	Canlyniad yr Asesiad
1	**Cenhadaeth Archwilio Mewnol**	
2	**Diffiniad o Archwilio Mewnol**	
3	**Egwyddorion Craidd ar gyfer yr Arfer Broffesiynol o Archwilio Mewnol:**	
4	**Cod Moeseg**	
5	**Safonau Priodoledd:**	
1000	Pwrpas, Awdurdod a Chyfrifoldeb	
1010	Nodi Canllawiau Mandadol yn y Siarter Archwilio Mewnol	
1100	Annibyniaeth a Gwrthrychedd	
1110	Annibyniaeth Sefydliadol	
1111	Rhyngweithio Uniongyrchol gyda'r Bwrdd	
1112	Rolau'r Prif Swyddog Archwilio tu hwnt i Archwilio Mewnol	
1120	Gwrthrychedd Unigol	
1130	Amharu ar Annibyniaeth neu Wrthrychedd	
1200	Medrusrwydd a Gofal Proffesiynol Dyledus (Safonau 1210-1230)	

Cyfeirnod	Safon Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus	Canlyniad yr Asesiad
1210	- *Medrusrwydd*	
1220	- *Gofal Proffesiynol Dyledus*	
1230	- *Datblygiad Proffesiynol Parhaus*	
1300	Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (Safonau 1310-1320):	
1310	- *Gofynion y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella*	
1311	- *Asesiadau Mewnol*	
1312	- *Asesiadau Allanol*	
1320	- *Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella*	
1321	Defnyddio 'Cydymffurfiaeth â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Arfer Proffesiynol Archwilio Mewnol'	
1322	Datgan Diffyg Cydymffurfiaeth	
6	**Safonau Perfformiad:**	
2000	Rheoli'r Gweithgaredd Archwilio Mewnol (Safonau 2010 – 2060):	
2010	- *Cynllunio*	
2020	- *Cyfathrebu a Chymeradwyaeth*	
2030	- *Rheoli Adnoddau*	

Cyfeirnod	Safon Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus	Canlyniad yr Asesiad
2040	- *Polisïau a Gweithdrefnau*	
2050	- *Cydlyniant a Gwydnwch*	
2060	- *Adrodd i Uwch Reolwyr a'r Bwrdd*	
2070	Darparwr Gwasanaeth Allanol a Chyfrifoldeb Sefydliadol am Archwilio Mewnol	
2100	Natur y Gwaith (Safonau 2110 – 2130):	
2110	- *Llywodraethiant*	
2120	- *Rheoli Risg*	
2130	- *Rheolaeth*	
2200	Cynllunio Ymgysylltiad (Safonau 2201-2240):	
2201	- *Ystyriaethau Cynllunio*	
2210	- *Amcanion Ymgysylltu*	
2220	- *Sgôp Ymgysylltu*	
2230	- *Neilltuo Adnoddau Ymgysylltu*	
2240	- *Rhaglen Waith Ymgysylltu*	
2300	Cyflawni'r Ymgysylltiad (Safonau 2300-2340):	

Cyfeirnod	Safon Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus	Canlyniad yr Asesiad
2310	- *Nodi Gwybodaeth*	
2320	- *Dadansoddi a Gwerthuso*	
2330	- *Dogfennu Gwybodaeth*	
2340	- *Goruchwylio Ymgysylltiad*	
2400	Cyfathrebu Canlyniadau (Safonau 2410-2440):	
2410	- *Meini Prawf ar gyfer Cyfathrebu*	
2420	- *Ansawdd y Cyfathrebu*	
2421	- *Camgymeriadau a Bylchau*	
2430	- *Defnyddio 'cyflawnwyd yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer yr Arfer Broffesiynol o Archwilio Mewnol'*	
2431	- *Datgan Diffyg Cydymffurfiaeth*	
2440	- *Rhannu Canlyniadau*	
2450	Barn Gyffredinol	
2500	Monitro Cynnydd	
2600	Cyfathrebu bod Risgiau'n cael eu Derbyn	

ATODIAD 1: DIFFINIAD O'R MEINI PRAWF ASESU

Asesiad	Diffiniad
Cydymffurfio'n Gyffredinol	Mae'r gwerthuswr wedi dod i'r casgliad bod strwythurau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol y gwasanaeth archwilio mewnol, ynghyd â'r broses o'u defnyddio, yn cydymffurfio gyda gofynion y Safon neu'r elfennau unigol o'r Cod Moeseg ym mhob agwedd berthnasol. Ar gyfer yr adrannau a'r prif gategorïau, mae hyn yn golygu bod cydymffurfiaeth gyffredinol gyda'r mwyafrif o Safonau unigol neu elfennau'r Cod Moeseg ac o leiaf cydymffurfiaeth rannol gydag eraill o fewn yr adran/categori. Nid yw cydymffurfiaeth gyffredinol yn gofyn am gydymffurfiaeth gyflawn neu berffaith, y sefyllfa ddelfrydol, arferion llwyddiannus ac ati. Efallai y bydd cyfleoedd ar gyfer gwelliant ond ni ddylai'r rhain adlewyrchu sefyllfaoedd lle nad yw'r gwasanaeth wedi gweithredu'r Safonau neu'r Cod Moeseg, heb eu defnyddio'n effeithiol neu heb gyflawni'r amcanion a ddatganwyd ganddynt.
Cydymffurfio'n Rhannol	Mae'r gwerthuswr wedi dod i'r casgliad bod y gwasanaeth archwilio mewnol yn gwneud ymdrechion diffuant i gydymffurfio gyda gofynion y Safonau neu'r elfennau unigol o'r Cod Moeseg, neu rannau neu gategorïau pwysig ohonynt, ond nad yw'n llwyddo i gyflawni rhai amcanion pwysig. Fel arfer, bydd y rhain yn cynrychioli cyfleoedd sylweddol ar gyfer gwelliant o ran y modd y defnyddir y Safonau neu'r Cod Moeseg yn effeithiol ac/neu gyflawni eu hamcanion. Efallai y bydd rhai diffygion y tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth a gallant arwain at wneud argymhellion i uwch reolwyr neu fwrdd y sefydliad.
Ddim yn Cydymffurfio	Mae'r gwerthuswr wedi dod i'r casgliad nad yw'r gwasanaeth archwilio mewnol yn ymwybodol, neu nad yw'n gwneud ymdrechion diffuant i gydymffurfio â nifer neu bob un o amcanion y Safonau neu'r elfennau unigol o'r Cod Moeseg, neu rannau neu gategorïau pwysig ohonynt, neu mae'n methu â chydymffurfio â nifer/pob un o amcanion y Safonau neu'r elfennau unigol o'r Cod Moeseg, neu rannau neu gategorïau pwysig ohonynt. Fel arfer, bydd y diffygion hyn yn cael effaith negyddol sylweddol ar effeithiolrwydd y gwasanaeth a'i botensial i ychwanegu gwerth i'r sefydliad. Efallai hefyd y byddant yn cynrychioli cyfleon pwysig ar gyfer gwelliant gan gynnwys camau gan uwch reolwyr neu'r bwrdd.

ATODIAD 2: CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER GWELLA

Cyf.	Cyf. PSIAS	Maes Gwella	Argymhelliad	Cyfrifoldeb	Amserlen
1	1000	Ar hyn o bryd, nid yw'r Siarter Archwilio Mewnol yn amlinellu cyfrifoldebau penodol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio na rôl swyddogion statudol (Prif Swyddog Gweithredol / Prif Swyddog Ariannol / Swyddog Monitro) mewn perthynas ag Archwilio Mewnol.	Diweddaru'r Siarter Archwilio Mewnol i gynnwys cyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Swyddogion Statudol mewn perthynas ag Archwilio Mewnol a cheisio cymeradwyaeth i'r Siarter.	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	Adolygiad nesaf o'r Siarter Archwilio Mewnol
2	1210	Nid yw'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol (RCAM) yn meddu ar gymhwyster proffesiynol ym maes Archwilio Mewnol. Serch hynny, mae hi'n astudio ar gyfer cymhwyster proffesiynol Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol (CIIA) ar hyn o bryd. Mae gan y pennaeth archwilio a risg safle allweddol yn y Cyngor. Mae CIPFA, yn ei Ddatganiad[3] yn barnu bod rhaid i'r pennaeth archwilio mewnol feddu ar gymwysterau proffesiynol a phrofiad addas i gyflawni'r rôl.	Dylai'r Cyngor roi cefnogaeth sylweddol i'r RCAM i ennill cymhwyster proffesiynol Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol (CMIIA) cyn gynted â phosib.	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	Cyn gynted â phosib
3	2010	Oherwydd y pandemig a'i effaith parhaus, nid yw'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol wedi cwblhau'r asesiad risg arferol i benderfynu ar y cynllun gwaith blynyddol ar gyfer archwilio mewnol ar gyfer 2021/22. Ar gyfer 2022/23, tra bod y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol wedi perfformio ac ystyried yr asesiad risg arferol wrth ddatblygu'r cynllun archwilio blynyddol, mae'r rhaglen waith wedi bod yn hyblyg, ac wedi canolbwyntio ar feysydd gwaith a nodwyd yn flaenorol ynghyd â rhai risgiau allweddol o'r gofrestr risg gorfforaethol a cheisiadau penodol am sicrwydd. Yn ogystal, nid yw'r cynllun blynyddol yn rhoi manylion penodol am flaenoriaeth y gwaith i'w gyflawni.	Dylai'r RCAM newydd barhau i ddatblygu'r broses asesu risg i lywio'r cynllun blynyddol ar gyfer gweithgaredd archwilio mewnol, ac amlinellu blaenoriaeth y gwaith i'w gyflawni yn y cynllun. Gallai hyn fod yn gyfle delfrydol i adolygu a datblygu'r broses asesu risg flynyddol i sicrhau fod y cynllun archwilio blynyddol yn alinio'n llawn â fframwaith rheoli risg y Cyngor a'i fod yn canolbwyntio ar y prif risgiau i'w amcanion strategol.	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	Cyn pen 12 mis

[3] Mae Datganiad CIPFA ar rôl y pennaeth archwilio mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus (2019) yn alinio â'r PSIAS (2017) ac yn cysylltu'n benodol â'r Egwyddorion Craidd ar gyfer yr Arfer Proffesiynol o Archwilio Mewnol.

Cyf.	Cyf. PSIAS	Maes Gwella	Argymhelliad	Cyfrifoldeb	Amserlen
4	2050	Cyn y pandemig COVID 19, roedd y tîm Archwilio Mewnol wedi datblygu map sicrwydd a oedd yn nodi ffynonellau sicrwydd ar draws y Cyngor, ond, roedd cwmpas ac aeddfedrwydd y map yn gyfyngedig. Ar hyn o bryd, mae'r RCAM a'r Uwch Archwilydd yn gwella a chryfhau'r map sicrwydd i gynnwys cwmpas ehangach o sicrwydd a defnyddio 'Model Tair Llinell' Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol.	Parhau i ddatblygu'r broses o fapio a chategoreiddio ffynonellau sicrwydd ar gyfer y Cyngor, gan ddefnyddio'r model 'Tair Llinell'. Ar ôl ei gwblhau, dylid ymgorffori'r map yn y broses gynllunio ar gyfer archwilio mewnol, mewn perthynas â safon PSIAS '2050 Cydlyniant'.	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	Cyn pen 12 mis
5	2220	Nid yw archwilwyr yn darparu dogfen ffurfiol sy'n amlinellu sgôp ac amcanion pob archwiliad cyn iddo gychwyn, ac nid ydynt yn gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth / Rheolwr perthnasol gytuno ar y sgôp. Fel arfer, mae hysbysiad am waith archwilio'n cael ei roi yn anffurfiol drwy e-bost ac ati cyn cychwyn yr archwiliad. Mae cysylltu'n ffurfiol â'r gwasanaeth perthnasol cyn yr archwiliad a chytuno ar sgôp y gwaith ymlaen llaw yn cynorthwyo i ennyn cefnogaeth i'r archwiliad a pherchnogaeth ohono ac unrhyw argymhellion a nodir.	Cyflwyno proses ar gyfer dogfennu, cyhoeddi a chytuno ar sgôp archwilio ffurfiol gyda rheolwyr cyn i'r gwaith archwilio gychwyn. Mae'r tîm Archwilio Mewnol wrthi'n rhoi system feddalwedd archwilio mewnol newydd ar waith (Pentana MKI), sydd yn cynnwys swyddogaeth ar gyfer gosod sgôp archwiliad ac felly gellir ei ddefnyddio i'r perwyl hwn.	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	Cyn pen 12 mis
6	2421	Os yw adroddiad archwilio'n cynnwys gwall neu fwlch sylweddol y mae angen ei ddiwygio, mae'r RCAM neu archwilydd perthnasol yn sicrhau fod y fersiwn diwygiedig yn cael ei ddosbarthu i bawb a oedd ar y rhestr ddosbarthu wreiddiol. Serch hynny, nid yw'r broses hon wedi'i chynnwys yn y Llawlyfr Archwilio.	Diweddaru'r Llawlyfr Archwilio Mewnol yn ôl y gofyn.	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	Cyn pen 3 mis

Cyf.	Cyf. PSIAS	Maes Gwella	Argymhelliad	Cyfrifoldeb	Amserlen
7	2450	Nid yw Adroddiad Blynyddol 2021/22 y RCAM, sydd yn cynnwys y farn archwilio gyffredinol ar gyfer y cyfnod, yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau ar sgôp. Mae cyfyngiadau ar sgôp yn bodoli ym mhob gwaith archwilio. Ni ellir dibynnu ar archwilio mewnol, yn enwedig mewn tîm bychan, i nodi pob cryfder a gwendid a all fodoli yn holl weithgarwch y Cyngor. Mae'n bwysig nodi mai'r rheolwyr yn y pendraw sydd â chyfrifoldeb am sicrhau system gadarn o reolaethau mewnol ac ni ddylai gwaith archwilio mewnol gymryd lle cyfrifoldebau rheolwyr i roi arferion rheoli mewnol cadarn ar waith.	Cynnwys adran yn yr Adroddiad Blynyddol i gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar sgôp y gwaith a gyflawnwyd gan Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn berthnasol.	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	Adroddiad Blynyddol nesaf (2022/23)
8	2500	Ers dechrau'r pandemig COVID 19, nid yw'r tîm archwilio mewnol wedi dilyn i fyny camau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda rheolwyr er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu rhoi ar waith yn effeithiol gan y gwasanaethau, neu fod uwch reolwyr wedi derbyn y risg o beidio â gweithredu.	Ail-sefydlu'r broses ddilyn i fyny. Mae'r system Pentana (MKI) yn cynnwys swyddogaeth dracio, felly pan fydd y system ar waith gellir ei defnyddio i'r perwyl hwn.	Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol	Cyn pen 6 mis

ATODIAD 3: RHESTR DDOSBARTHU

Adroddiad Cryno Drafft ac Asesiad Manwl
• Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol
• Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro
Adroddiad Cryno Terfynol a Chynllun Gweithredu
• Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio